# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## CYNNIG PROFFESIYNOL GWE: EBRILL 2024 - MAWRTH 2025

**Mae Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE Ebrill 2024 - Mawrth 2025 yn fyw ar ein gwefan.**
Yma cewch gofrestru a gwybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Sesiwn galw heibio rithiol MDaPh Mathemateg a Rhifedd

**CYNRADD AC UWCHRADD - DEWIS O DRI CYFARFOD 1 AWR AR-LEIN**

04/07/2024 | 9:00-10:00 | 13:00-14:00 | 15:30-16:30 Sesiwn Rhithiol dros TEAMS

Sesiynau galw heibio rhithiol anffurfiol a hwylusir gan YCG Mathemateg a Rhifedd GwE. Bydd y sesiynau yn ymateb i anghenion y rheiny sy'n mynychu.

Gall y sesiynau edrych ar:

- Gynllunio
- Addysgeg
- Egwyddorion cynnydd
- Monitro ac arfarnu

Cynradd | Uwchradd

Bydd ymarferwyr yn gallu trafod/gofyn cwestiynau am weithredu MDaPh Mathemateg a Rhifedd yn eu lleoliad, yn ogystal â gweithredu Rhifedd fel sgil drawsgwricwlaidd.

### Aelodau o Uwch Dimau Arwain ysgolion uwchradd sydd yn arwain ar y sgiliau trawsgwricwlaidd

**Gweithdy undydd sy'n rhoi sylw i:**

- Gynllunio yn strategol ar gyfer cynnydd a dilyniant yn y sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws ysgol uwchradd.
- Cynllunio cefnogaeth a dysgu proffesiynol ar gyfer staff i ddatblygu'r ddarpariaeth ac addysgu'r sgiliau trawsgwricwlaidd.
- Arfarnu cynnydd a safonau yn y sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol.

**NI DDARPERIR CINIO. Cofrestrwch ar gyfer un o'r dyddiadau isod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFRWNG** | 19/09/2024 – Bryn Eirias | **CYFRWNG** | 20/09/2024 – Bryn Eirias |
| **CYMRAEG:** | 23/09/2024 – Penrallt | **SAESNEG:** | 24/09/2024 – Linden House |

# YSGOLION ARBENNIG

## Adolygu bwriad a gweithrediad y cwricwlwm a'i effaith mewn lleoliad arbenigol

27/06/2024 | 9:15-15:15 GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn COFRESTRU

Cyfle i edrych ar sail resymegol a bwriad y cwricwlwm; adolygu gweithrediad cynigion cwricwlwm unigol; dadansoddi, gwerthuso, adolygu a chynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Bydd ymarferwyr yn:**

- datblygu eu dealltwriaeth o sut mae cynllunio ac asesu yn gallu dylanwadu ar gynnydd a'i lywio.
- ystyried cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'u cwricwlwm.

**NI DDARPERIR CINIO. Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Emma Keyworth neu Mike Armiger.**

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) mewn sector arbenigol

04/07/2024 | 9:15-15:15 GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn COFRESTRU

Cyfle i adolygu meini prawf y CiG ac ACRh, ystyried beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a chymhleth a sut gall llythrennedd emosiynol gael effaith ar ACRh.

**Bydd ymarferwyr yn:**

- Deall meysydd mandadol ACRh a'r CiG a sut gall y rheiny edrych mewn lleoliad arbenigol.
- Datblygu a gwella'r dull o gyflwyno ACRh effeithiol
- Gwybod am effaith ACRh ar lythrennedd emosiynol

**NI DDARPERIR CINIO Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Emma Keyworth neu Mike Armiger.**

# RHWYDWEITHIAU A CHYFARFODYDD SECTOR UWCHRADD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arweinwyr Rhifedd Uwchradd** | 27/06/2024 \| 9:00-15:00 | Canolfan Fusnes Conwy | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Penaethiaid 6ed** | 28/06/2024 \| 9:30-14:30 | Canolfan Fusnes Conwy | COFRESTRU |
| NEWYDD **Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd** CYMRAEG | 03/07/2024 \| 9:00-15:30 | Penrallt, Caernarfon | COFRESTRU |
| **Rhwydwaith Arweinwyr Llythrennedd** SAESNEG | 03/07/2024 \| 9:00-15:30 | Linden House, Yr Wyddgrug | COFRESTRU |
| NEWYDD **Cymorth Safon Uwch Seicoleg a Busnes** | 09/07/2024 \| 12:30-15:30 | Ysgol John Bright, Llandudno | COFRESTRU |

# DIGIDOL

## Gŵyl Digi Hwb

Cynhelir yr ŵyl rithiol hon ddydd Llun, 2 Medi rhwng 9:30yb a 2:30yp. Yn ystod y dydd bydd cyfres o weithdai byrion yn cael eu cynnal gan bartneriaid Hwb, Adobe, Apple, Britannica, Common Sense Education, Flip, Google, J2E, Microsoft, Minecraft a Technocamps. Cyfle gwych i uwch sgilio eich holl staff os oes diwrnod hyfforddiant mewn swydd wedi'i drefnu!

**Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.**




## Newyddlen GwE Digidol

**Cliciwch yma am gopi.**



# Y GYMRAEG

## Datblygu medrau siarad a gwrando disgyblion – cyfle i ddweud eich dweud

Mae datblygu medrau llafaredd effeithiol yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â holl gwricwlwm yr ysgol ac mae'n sgil gydol oes. Mae Prifysgol Bangor mewn partneriaeth efo GwE a Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil i'r modd mae athrawon yn cynllunio er mwyn datblygu medrau siarad a gwrando disgyblion.

Byddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn annog eich athrawon i lenwi'r holiadur yma drwy ddefnyddio'r **ddolen yma**. Mae cyfle i ennill £200 i'r ysgol drwy gynnwys eich cyfeiriad e-bost ar ddiwedd yr holiadur.

**Y dyddiad cau yw 12/07/2024.**

Os hoffech chi **fwy o wybodaeth** ynglŷn â'r holiadur, mae croeso i chi gysylltu efo enlli.thomas@bangor.ac.uk neu g.caulfield@bangor.ac.uk ym Mhrifysgol Bangor.

## Cewri Cymru

**MAE'R TRYDYDD ADNODD YNG NGHYFRES CEWRI CYMRU YN FYW!**

Dysgwch fwy am y Gawres Gymraeg sy'n seren gerddorol, Mared Williams, drwy'r **adnoddau fideo a llythrennedd** sy'n addas ar gyfer disgyblion o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6. **Cliciwch yma**




## Mwy o Stori'r Iaith


Dyma adnodd addysgol sy'n cefnogi cyfres deledu S4C, 'Stori'r Iaith'. Yn yr adran 'adnoddau', ceir gwybodaeth gefndirol i athrawon am 11 cyfnod yn hanes yr iaith, fideos i sbarduno gwersi, a gweithgareddau amrywiol sy'n cwmpasu pob maes dysgu a phrofiad.

**Cliciwch yma i gael mynediad**

## Hanes Mawr Cymru

Mae hanes Cymru yn llawn pobl ryfeddol a chymeriadau mawr. Dewch ar daith hwyliog gyda Llinos Mai i'w cyfarfod!

**PODLEDIADAU**




## Pecyn addysg Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd, 2024

Thema'r Neges eleni yw dathlu Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-24 ac ysbrydoliaeth y ddeiseb honno ar gyfer galw am heddwch heddiw ac i'r dyfodol.

**LAWRLWYTHWCH Y PECYN ADDYSG**

Urdd

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

**Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:** CYNRADD | UWCHRADD



## SECTOR CYNRADD

### Dysgu cyflwyno iaith yn y sector cynradd Cwrs TELT gan y Brifysgol Agored wedi'i ariannu'n llawn.

**COFRESTRU 2024-2025**

Cyfle unigryw i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd drwy'r Brifysgol Agored. Manylion llawn a chofrestru yma.

## SECTOR UWCHRADD

### Defnyddio strategaethau *Group Talk* i ddatblygu sgiliau siarad digymell a hyderus

03/07/2024 | 15:45 Digwyddiad Ar-lein COFRESTRU

Mae'n agored i bob athro Ieithoedd Rhyngwladol yn yr Uwchradd. Manteisiwch ar y cyfle unigryw hwn i glywed Greg Horton a Wendy Adeniji yn siarad am lwyddiant strategaethau Group Talk yn eu hysgolion! Er bod cysylltiad rhwng y sesiwn hon ac adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer meddalwedd Sanako Connect, gellir defnyddio'r strategaethau yn y dosbarth yr un fath. Ac os oes gennych chi ddiddordeb yn y feddalwedd, gallwn drafod sut i'ch helpu chi efo hyn, yn rhad ac am ddim.

## SECTOR CYNRADD / UWCHRADD

### Ceisiadau Cysylltiad y DU/Almaeneg ar agor: cyfleoedd i athrawon 2024-25

Cyfle 'Wunderbar' i ddarparu uwchsgilio ieithyddol a diwylliannol i athrawon ac ysgolion sy'n hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ryngddiwylliannol disgyblion drwy gyfrwng yr Almaeneg. Nid oes angen Almaeneg ar eich cwricwlwm. Dilynwch y ddolen yma i wneud cais uniongyrchol i'r UK German Connection.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

### Allwch chi wella ein dealltwriaeth o sut mae ysgolion wedi rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith?

Rydym yn chwilio am arweinwyr cwricwlwm mewn ysgolion i'n helpu i ddeall sut mae athrawon wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar brofiadau dysgu mewn ysgolion. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA



### Hyfforddiant Statws Ymarferydd Achrededig ar gyfer Dyslecsia 2024-2025

**AR GYFER CYMORTHYDDION A CALU**

Hyfforddiant rhad ac am ddim ar gyfer Statws Ymarferydd Achrededig Dyslecsia, mewn cydweithrediad â Chanolfan Dyslecsia Miles, Prifysgol Bangor. Cynhelir yr hyfforddiant dros Dymor yr Hydref 2024 a Thymor y Gwanwyn 2025. Cynhelir sesiwn wybodaeth dros TEAMS ar 02/07/2024 am 3.15pm. **Rhaid** mynychu'r sesiwn wybodaeth er mwyn cefnogi eu cais. Yn ogystal, awgrymir yn gryf bod aelod o UDRh yr ysgol hefyd yn mynychu'r sesiwn. Manylion llawn ar gael yma neu cysylltwch âg Elin Vaughan Hutchinson. I wneud cais, dilynwch y ddolen hon.

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Cliciwch yma i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Dilynwch y ddolen i'r recordiadau a'r cyflwyniadau PowerPoint o gyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad.

## Newidiadau yn y Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newidiadau sylweddol yn y broses Sefydlu ANG ar gyfer mis Medi 2024. Gweler yma'r holl newidiadau.

## Tegwch mewn Addysg - Dysgu Proffesiynol

**ADDYSGU A DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A DAN ANFANTAIS**

Cliciwch ar y ddolen hon i ddarllen mwy am yr adnoddau a sut gallwch chi fynd ati i'w defnyddio yn y dosbarth.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Sgwrs Genedlaethol Haf 2024

COFRESTRWCH YMA

**PWRPAS, ADDYSGEG A CHYNNYDD**

Gan adeiladu ar Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol 2024 yn seiliedig ar Gwricwlwm a Chynnydd, bydd Sgwrs Genedlaethol Haf 2024 yn canolbwyntio ar rôl addysgeg o ran cefnogi ein dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru.

Os ydych chi'n arweinydd, yn athro neu'n gynorthwyydd dosbarth mewn ysgol yng Nghymru, bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i rannu syniadau, dysgu gan eraill a magu perthnasoedd a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth gyffredin o'r Cwricwlwm i Gymru.

## Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni'r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol, a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

Gweler y dolenni canlynol i'r canllawiau a'r astudiaethau achos cysylltiedig.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Addysg Cenedlaethol [Cymru] [Cyfrwng Cymraeg]

Os ydych chi'n ysgol arweiniol neu rwydwaith gyda Phrifysgol Bangor, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd dysgu llawn unrhyw aelod staff sydd â diddordeb yn y rhaglen hon. I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cymryd myfyrwyr Bangor, mae'n bosib y gallai cymorthyddion dysgu, CGADY ac athrawon yn eu trydedd hyd at eu chweched blwyddyn o'u gyrfa, fod yn gymwys i gael cyllid. Am fwy o wybodaeth, gofynnir yn garedig i chi anfon e-bost at Kaydee Owen.
Cewch fwy o wybodaeth yma.

**ÔL-RADDEDIG TRWY DDYSGU - MYNEDIAD: MEDI 2024/2025**




## Dinas Gyrfaoedd

27/06/2024 | 15:30-16:00 | Digwyddiad trwy *Teams*

Adnodd dwyieithog yw Dinas Gyrfaoedd a ddatblygwyd i gefnogi ysgolion cynradd i ymgorffori Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau Gwaith ar draws y cwricwlwm mewn ffordd hwyliog, atyniadol a hawdd.
Ymunwch mewn sesiwn ragarweiniol am ddim ar sut i wneud y gorau o Dinas Gyrfaoedd. COFRESTRWCH.

**YSGOLION CYNRADD**

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

## Pencampwyr Cyrhaeddiad

Mae AGAA yn chwilio am ysgolion i ymuno â phrosiect peilot 12 mis sy'n canolbwyntio ar Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Gyrhaeddiad.
Bydd penaethiaid yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn gweithio ar y cyd â Phencampwr Cyrhaeddiad mewn un o bum rhwydwaith bach o hyd at dair ysgol. Bydd pob ysgol yn cael cefnogaeth rhwng cymheiriaid o'r rhwydwaith a fydd â phrofiad o welliant parhaus wrth gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm is.
Lawrlwythwch y Pecyn Recriwtio am ragor o wybodaeth a sut i wneud cais.

**DYDDIAD CAU: 24 MEHEFIN 2024**

DARPL

## Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL (Carfan 3, Hydref 2024)

Os hoffech fynegi eich diddordeb mewn cymryd rhan, COFRESTRWCH.

**ARWEINWYR YM MAES GWELLA ADDYSG, DATBLYGU POLISI, YMCHWIL, ADDYSG GYNRADD, UWCHRADD A PHELLACH, GOFAL PLANT, GWAITH CHWARAE A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR**

CARLAM CYMRU e-sgol

## Holiaduron Carlam Cymru NEWYDD

Mynegwch eich barn ar adnoddau prosiect Carlam Cymru.

- ATHRAWON
- DYSGWYR BL.10-13

e-sgol


## Cynhadledd e-sgol

04/07/2024 | 12:00 | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**ATHRAWON POB SECTOR**



BBC BITESIZE



## Adnoddau newydd ar Ddinasyddiaeth: BBC Bitesize NEWYDD

Ewch i wefan BBC Bitesize i weld adnoddau newydd ar Ddinasyddiaeth, ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.

### CYNRADD (8-11 oed)

Cyfres o erthyglau i helpu disgyblion ddeall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd, ar ffurf fideos byrion, graffeg a gweithgareddau rhyngweithiol.

Addas i ddisgyblion ar Gamau Cynnydd 2 a 3.

### UWCHRADD (11-14 oed)

Fideos a chwisiau ar bynciau amrywiol yn ymwneud â Dinasyddiaeth, o Aelodau Seneddol i'r system 'Cyntaf i'r Felin'.

Addas i ddisgyblion ar Gamau Cynnydd 3 a 4.

**DYSGWYR CYNRADD [8-11 OED]**

**DYSGWYR UWCHRADD [11-14 OED]**